

# Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

**Cofnodion y cyfarfod o'r Gweithor Ymgysylltu a gynhaliwyd Nos Iau  
12 Mawrth 2020 yn Canolfan y Fron**

**Minutes of the Consulting Working Group held at Canolfan y Fron,  
Thursday, 12 March 2020 at 7.00pm**

## **Yn bresennol / Present**

Cynghorwyr/ Councillors Alun Wyn Jones; Marnel Pritchard; Eddie Willcox; Rhys Vaughan Thomas; Hywel J Owen ; Gwyn Owen Jones; Clive Bayley; David Roberts  
Rheolwr/Manager;

### **1 Croeso'r Cadeirydd – Chairmans Welcome**

Croesawyd pawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod gan Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd Alun Wyn Jones.

### **2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences**

Cyng. Gerwyn Owen; Cyng. Dyfed Williams; Cyng. Alan Patterson; Cyng. Helen Hughes

### **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000**

Ni wnaeth yr un aelod na'r Clerc ddatgan buddiant / No declarations made by any member on any items on the agenda.

### **4 Adroddiad Blynyddol a Newyddlen**

Dosbarthwyd gopi o Adroddiad Blynyddol drafft 'roedd y Rheolwr wedi ei greu. Pwysleiswyd mai adroddiad cychwynol ydoedd ac and oedd ei gynnwys yn gyflawn. 'Roedd y Rhelwr eisoes wedi anfon copi o'r Adroddiad i pob aelod trwy ebost ar ffurf PowerPoint ac ar ffurf PDF.

Cytunwyd ei fod yn fan cychwyn da ac fod angen chwynu ei gynnwys ar gyfer cyhoeddi taflen i'w argraffu.

Atgoffwyd yr aelodau gan AWJ fod y gweithgor hwn . a'r Cyngor, wedi penderfynu cyhoeddi newyddlen maint A3 fydd yn cael ei ddsbarthu mewn manau cyhoeddus yn y gymuned gan nad yw pawb hefo mynediad i'r gwefan.

Atgoffwyd pawb o'r amserlen sef fod yr adroddiad terfynol yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn cyfarfod 18 Mai 2020

Cytunwyd i gael cynnwys yr adroddiad drafft fel y'i dosbarthwyd yn gywir ac yn gyflawn cyn y trefnu cyfarfod eto i benderfynu pa rannau fydd yn cael ei gynnwys yn y newyddlen.

Aethpwyd ati i bori cynnwys yr adroddiad. Cytunwyd ar sawl man addasiadau.

Roedd pawb yn fodlon gyda'r pennawdau sef-

- 1) Gair gan y Cadeirydd
- 2) Cyllideb y Cyngor 2019-20
- 3) Gwaith Eich Cyngor am y Flwyddyn 2019-20
- 4) Rheoli Eiddo y Cyngor
- 5) Gweinyddiaeth a Llywodraethiant
- 6) Rhoddion i Fudiadau Gwirfoddol
- 7) Eisteddfod Genedlaethol 2021
- 8) Cynrychioli Eich Cymuned
- 9) Partneriaethau a Cyd-weithio
- 10) Ymgysylltu gyda Ein Cymuned
- 11) Cynllunio
- 12) Gwaith yn Ein Pentrefi
- 13) Rhaglen Waith i'r Flwyddyn 2020-21
- 14) Cyfarfodydd yY Cyngor 2019-20
- 15) Eich Cynrychiolwyr
- 16) Cysylltu Gyda Eich Cyngor
- 17) Manylion Cysylltu Defnyddiol

Camau Nesaf –

- **Rheolwr** i addasu'r adroddiad electroneg gyda addasiadau fel a nodwyd yn y cyfarfod
- **Rheolwr** i gyfieuthu yr adroddiad electroneg – gobeithir y bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd y mis.
- **MP** – am wirio y Gymraeg a'r Saesneg ar yr Adroddiad Blynyddol
- **AWJ/HJO/GOJ** – am drefnu cyfarfod/ydd i dynnu cynnwys o'r adroddiad electroneg a'l osod i'r adroddiad papur

**Argymhelliad i'r Cyngor –**

***Fod y Cyngor yn derbyn y gwaith sydd wedi ei gyflawni hyd yma ac yn ymddiried yn y gweithgor hwn i gyrraedd pen y daith ac y bydd yna adroddiad blynyddol a newyddlen terfynol yn dod gerbron y Cyngor llawn i'w gymeradwyo yn cyfarfod Mai 2020***

**Recommendation to Council -**

***That the Council accepts the work that has been done thus far and entrusts this working group to complete the work and that a final annual report & newsletter will be presented to the full Council in its May 2020 meeting for approval.***

## 5 Gwefan Newydd y Cyngor

Cafwyd diweddariad gan y Rheolwr o'r gwaith sydd wedi ei weud hyn yma gan Delwedd.

- Tudalen flaen drafft wedi ei gymeradwyo gan y Rheolwr ar 11 Mawrth 2020
- Delwedd yn cychwyn adeiladu'r gwefan ar 23 Mawrth. Disgwylir y bydd y gwaith hwn yn cymryd 7 i 10 diwrnod ac yna yn trosglwyddo y gwefan i'r Cyngor.
- Rheolwr wedi anfon cofnodion 2019-20 a 2018-19 ar ffurf PDF/A (A=yn cydymffurfio a gyda'r rheolau newydd anabled)

- Bydd y gwefan newydd yn cynnwys Rhaglen a Chofnodion Y Cyngor Llawn, Pwyllgorau Gweithgorau am 2018-19 a 2019-20 yn y lle cyntaf gyda nodyn yn gofyn i unrhyw ymwelydd

### **Cyfeiriad y Gwefan Newydd**

Atgoffwyd yr aelodau fod y Cyngor wedi oedi yn ei gyfarfod 20 Ionawr 2020 ar cyfeiriad y gwefan newydd .gan ofyn i'r gweithgor hwn ystyried a oes angen cyfeiriad Saesneg. Pawb o'r farn mai un cyfeiriad sydd ei angen sef

**[cyngorcymunedllandwrog.cymru](http://cyngorcymunedllandwrog.cymru)**

### **Argymhelliad i'r Cyngor**

- Fod y Cyngor yn nodi yr hynny adroddwyd ynglyn y gwaith sydd wedi ei wneud gan Delwedd hyd yma.*
- Fod y Cyngor yn cytuno ar enw cyfeiriad y gwefan newydd sef [cyngorcymunedllandwrog.cymru](http://cyngorcymunedllandwrog.cymru)*

### **Recommendation to Council**

- That the Council notes what has been reported regarding the work carried out thus far by Delwedd*
- That the Council agrees on the address for the new website being [cyngorcymunedllandwrog.cymru](http://cyngorcymunedllandwrog.cymru)*

<b>Daeth y cyfarfod i ben am 8:15 yr hwyr</b>
---

<b>Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -</b>	
<b>Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor</b>	
<b>Dyddiad -</b>	